Beibl i Blant
yn cyflwyno



# Dafydd y Brenin (Rhan 1)

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Lazarus; Alastair Paterson

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2021 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo
neu argraffu'r stori hon, ar yr amod
nad ydych yn ei gwerthu.


Roedd Dafydd ar ffo. Roedd y Brenin Saul eisiau ei ladd. Roedd Dafydd yn byw allan yn yr anialwch, ...

... mewn ogof fawr ac roedd ganddo bedwar cant o ddynion yn ei gefnogi.



Roedd milwyr y Brenin Saul bron â dod o hyd iddyn nhw.  Ond daliodd Dafydd ati i symud o le i le.



Dywedodd Doeg, gwas Saul, wrth y brenin fod yr offeiriaid wedi helpu Dafydd i ddianc. Rhoddodd Saul orchymyn - roedden nhw i gael eu lladd.



Ond dim ond Doeg oedd yn fodlon gwneud hyn! Fe laddodd e wyth deg pump o offeiriaid a'u teuluoedd gyda'i gleddyf.

Dyna ofnadwy!





Un diwrnod, roedd Saul yn chwilio am Dafydd ac fe gerddodd i mewn i'r union ogof lle roedd Dafydd a'i ddynion yn cuddio. Roedd Saul ar ben ei hun!


Byddai Dafydd wedi gallu lladd Saul yn yr ogof. Ond yn lle hynny,
aeth Dafydd yn ddistaw bach a thorri cornel mantell Saul gyda'i ddagr.


Aeth Saul allan o'r ogof a galwodd Dafydd ar ei ôl, "Dw i wedi torri cornel dy fantell
di ond wnes i ddim dy ladd. Dw i isio i ti ddeall nac ydw i'n bwriadu dim drwg i ti a dydw i ddim yn gwrthryfela …"

Dywedodd Saul fod yn ddrwg ganddo fe am geisio brifo Dafydd. Ond daeth ei hen dymer yn ôl, a dyma fe'n casglu byddin o dair mil o ddynion er mwyn lladd Dafydd.



Un noson, tra roedd y fyddin yn cysgu, sleifiodd Dafydd ac Abishai, un o'i filwyr, i mewn i wersyll y brenin.  Roedd y brenin yn cysgu yno.





“Mae Duw wedi rhoi dy elyn i ti heddiw,” sibrydodd Abishai, “Gad i mi ei drywanu a’i hoelio i’r ddaear gyda gwaywffon. Un ergyd fydd ei angen.”


"Na," oedd ateb Dafydd. Dyma Dafydd yn cymryd y waywffon a'r botel ddŵr oedd wrth ymyl Saul, a gadael y gwersyll. Aeth i gopa mynydd a galw nes bod Saul yn ei glywed.


Unwaith eto, gwelodd Saul y gallai Dafydd fod wedi ei ladd. Unwaith eto, dywedodd Saul fod yn ddrwg ganddo am geisio gwneud drwg i Dafydd. Ond doedd Dafydd ddim yn ei drystio.

Erbyn hyn roedd Samuel wedi marw. Roedd Duw wedi dweud wrth y proffwyd hwn am wneud Saul, ac yna Dafydd yn frenin Israel. Pan ymosododd y Philistiaid ar Israel, fe wnaeth Saul rywbeth ofnadwy, rhywbeth oedd yn erbyn rheolau Duw.



Dywedodd wrth wraig am gonsurio a gwneud i Samuel ddod atyn nhw. Y noson honno, cafodd Saul neges.



“… Mae’r ARGLWYDD wedi troi cefn arnat ti a throi’n elyn i ti … mae’r ARGLWYDD wedi rhwygo’r deyrnas oddi arnat ti a’i rhoi hi i Dafydd. Erbyn fory byddi di a dy feibion yn yr un lle â mi.



Bydd yr ARGLWYDD yn rhoi byddin Israel yn nwylo'r Philistiaid."
Pan glywodd Saul hyn, syrthiodd ar ei liniau mewn ofn.



Fe wnaeth y Philistiaid ymladd yn erbyn Israel, ac aeth milwyr Israel ar ffo.



Cafodd meibion Saul, gan gynnwys Jonathan, ffrind agos Dafydd, eu lladd.



Cafodd Saul ei anafu'n ddifrifol gan fwyasaethwyr. Dywedodd wrth y gwas oedd yn cario ei arfau. "Cymer dy gleddyf a thrywana fi.



Paid gadael
i'r paganiaid yma
ddod i'm cam-drin
i a'm lladd i."
Ond roedd gan y
gwas ofn gwneud
hynny. Dyma
Saul yn cymryd
y cleddyf ac yn
syrthio arno.





Daeth y Philistiaid
o hyd i gyrff Saul
a'i feibion.  Fe
wnaethon nhw
grogi'r cyrff
ar waliau un o
ddinasoedd
Israel.



Daeth rhai milwyr dewr yno ac achub y cyrff a mynd a nhw oddi yno a'u llosgi, cyn claddu'r llwch yn Israel.



Pan glywodd Dafydd y newyddion drwg, roedd yn drist, a dyma fe'n llefain a gwrthod bwyta wrth iddo fe alaru dros Saul, Jonathan ei fab, a byddin yr ARGLWYDD, pobl Israel oedd wedi cael eu lladd yn y frwydr.

Er bod Saul wedi ceisio lladd Dafydd, roedd Dafydd wedi dangos parch at Saul am fod Duw wedi ei ddewis yn frenin.



Nawr, cafodd Dafydd ei anrhydeddu gan Dduw a'i wneud yn frenin yn lle Saul.



# Dafydd y Brenin (Rhan 1)

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Samuel 24-31, 2 Samuel 1-2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16